# Dysgu cyfunol: Mabwysiadu dull amlweddog o weithredu
# Manteision a Heriau

Gall defnyddio cymysgedd o ddulliau wyneb yn wyneb ac ar-lein gynyddu allgymorth yn sylweddol gan nad ydych bellach yn gyfyngedig i ymgysylltu â phobl ifanc yn eich ardal ddaearyddol. Bydd rhai pobl ifanc nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus ag ymgysylltu wyneb yn wyneb yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ar-lein. Mae'r dull cyfunol hwn o weithredu'n cynyddu'r mecanweithiau y gall pobl ifanc eu defnyddio i ymgysylltu a dylai gwmpasu amrywiaeth o ddulliau dysgu.

## Manteision

### Cynyddu cyrhaeddiad

Gall ymgysylltu ar-lein ei gwneud yn haws i bobl ifanc gymryd rhan oherwydd nid oes unrhyw deithio i'w wneud. Mae prosiectau wedi adrodd am fwy o allgymorth gan fod ymgysylltu ar-lein yn golygu nad ydynt yn gyfyngedig i'w hardal ddaearyddol. Gall hefyd alluogi prosiectau i ehangu cwmpas pynciau a gweithgareddau.

### Trafodaethau grŵp

Annog trafodaethau grŵp bach ar-lein ac wyneb yn wyneb. Gall hyn gynyddu hyder a sgiliau adlewyrchu / meddwl pobl ifanc yn fawr a gwneud y sesiynau'n fwy 'real' iddynt.

### Dysgu cysylltiedig

Gellir ategu gweithgarwch wyneb yn wyneb gyda gweithgarwch ar-lein sy'n arwain at brofiad dysgu ehangach a chynyddu cyfranogiad person ifanc.

### Optimeiddio ar-lein

Sicrhau bod ymgysylltu ar-lein wedi'i optimeiddio'n llawn, a'i fod yn hygyrch ar ffonau symudol er mwyn symleiddio'r ymgysylltu os yw hynny'n bosibl a'i wneud yn gwbl hygyrch, yn enwedig i'r rhai heb gyfrifiadur.

### Arloesi digidol



Gall ymgysylltu ar-lein gan ddefnyddio cyfryngau fel Minecraft fod yn ddull llwyddiannus o allgymorth digidol oherwydd ei fod yn amgylchedd gyda llai o bwysau na galwad Zoom.

# Heriau

## Defnyddio data

Nid oes gan bob person ifanc fynediad at Wi-Fi ac mae technolegau fideo, fel Zoom, yn defnyddio llawer iawn o ddata. Os oes modd, cynigiwch dalu am unrhyw gostau.

## Bod yn gynhwysol

Dylid cysylltu gweithgarwch wyneb yn wyneb ac ar-lein, ond dylid sicrhau'r gallu i'w cynnal fel digwyddiadau ar eu pen eu hunain fel nad yw'r cyfranogwyr sy'n cymryd rhan mewn un math o weithgaredd yn teimlo eu bod wedi'u heithrio.

## Lliniaru gorbryder

Weithiau gall pobl ifanc sydd â gorbryder cymdeithasol eithafol ymgysylltu'n dda ag amgylchedd digidol er y gall rhai pobl ifanc deimlo bod ystafelloedd grŵp gyda phawb ar gamera yn brofiad brawychus.

## Sicrhau'r cydbwysedd cywir

Mae sicrhau'r cydbwysedd cywir sy'n rhoi cyfle cyfartal i bobl ifanc, boed wyneb yn wyneb neu ar-lein, yn hollbwysig.

**Mae Rhannu Dysgu Gwella yn ethos allweddol o Our Bright Future ac mae'n hwyluso cysylltiadau, rhannu gwybodaeth a dysgu gwersi ar draws y rhaglen.**

**Mae'r canllawiau arfer da eraill sy'n cysylltu â dulliau dysgu cyfunol ac a allai fod yn ddefnyddiol yn cynnwys Gweithredu o dan amodau Covid-19 a Cyngor Doeth Minecraft a Discord**

**Am adnoddau pellach a chanllawiau arfer da ewch i www.ourbrightfuture.co.uk/resources**

**Os hoffech chi ddysgu mwy am swyddogaeth Rhannu Dysgu Gwella cysylltwch ag ourbrightfuture@wildlifetrusts.org**